

CYNGOR SIR Y FFLINT
KING GEORGE STREET, MOSTYN STREET, WOODLAND STREET, WOODLAND
CRESECENT, PLYMOUTH STREET, FFORDD DDIENW, VICTORIA ROAD, ROWDEN
STREET, BEACONSFIELD ROAD, KINGSWAY, ROWDEN CRESCENT, VICTORIA
CRESCENT, GLADSTONE STREET, GARDEN WAY, QUEENSWAY, TALIESIN AVENUE,
MILL VIEW ROAD, LLEWELYN STREET, SHOTTON
(Terfyn Cyflymder 20 mya a Pharth 20 mya) 20—

DATGANIAD O RESYMAU DROS ARGYMELL GWNEUD Y GORCHYMYN

Yn dilyn cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru, mae Cyngor Sir y Fflint wedi llwyddo i gael cyllid i weithredu mesurau diogelwch sylweddol (mae'r Terfyn Cyflymder 20 mya yn ffurfio rhan ohonynt) er mwyn mynd i'r afael â thagfeydd a lleihau symudiadau cerbydau diangen ar hyd y llwybrau i Ysgol Croes Atti ac Ysgol Tŷ Fynnon.

Mae nifer o'r problemau a nodwyd ar hyd y llwybrau yn ymwneud â lefelau uchel o gerbydau'n cael eu defnyddio a thagfeydd cysylltiedig yn yr ardaloedd yn agos at yr ysgol ac ar hyd nifer o lwybrau i'r ysgol.

Yn y blynyddoedd diweddar, mae Cyngor Sir y Fflint wedi cael nifer o bryderon gan breswylwyr, disgyblion, rhieni, staff addysgu ac Aelodau Lleol oherwydd pryderon ynghylch lefelau cynyddol o dagfeydd a chyflymder traffig o amgylch yr ysgol.

Codwyd pryder penodol ynglŷn â modurwyr yn anwybyddu'r terfyn cyflymder cynghorol o 20mya yn agos at yr ysgol, ac mae nifer o breswylwyr yn bryderus am ddiogelwch y plant sy'n defnyddio'r llwybr hwn yn ddyddiol.

Bydd gweithredu terfyn cyflymder gorfodol o 20 milltir yr awr arfaethedig ar hyd terfyn y cynllun arfaethedig yn ymdrin â phroblemau goryrru a hefyd sicrhau bod y llwybr yn cyrraedd y safon ofynnol i hyrwyddo defnydd o ddulliau teithio llesol trwy'r cysyniad o rannu gofod.

Bydd gostwng y terfyn cyflymder yn ymdrin â phroblemau goryrru a bydd yn gwella diogelwch i gerddwyr a defnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed, a lleihau tagfeydd a gwella llif y traffig. Bydd lleihau'r tagfeydd o fudd i ddiogelwch y plant sy'n teithio i'r ysgol ac yn ôl adref a bydd hefyd yn gwella ansawdd yr aer ac ansawdd bywyd trigolion lleol.

Mae'r Parth Terfyn Cyflymder 20mya yn rhan hanfodol o'r cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae mesurau eraill o'r fath yn cynnwys cyfleusterau croesi newydd a gwell darpariaethau cerdded a beicio.

Ceir manylion y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac maent wedi eu cynnwys yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig.

Dyddiedig 15 Ionawr 2021



Stephen O Jones,
Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint. CH7 6NF.